

**Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn**  
**Answers to Questions not reached in Plenary**  
**10/06/2008**

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

**Cwestiynau i'r Prif Weinidog**  
**Questions to the First Minister**

**Health Provision**

**Q11 Chris Franks:** Will the First Minister make a statement on representations received regarding health provision in South Wales Central? OAQ(3)1080(FM)

**The First Minister (Rhodri Morgan):** The Minister for Health and Social Services has received a number of representations regarding health provision in South Wales Central. Most of these representations refer to trust mergers within the area and the development of new facilities within the new Cwm Taf NHS Trust.

**Darpariaeth Iechyd**

**C11 Chris Franks:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y sylwadau a gafwyd ynghylch darpariaeth iechyd yng Nghanol De Cymru? OAQ(3)1080(FM)

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Mae'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cael nifer o sylwadau ynghylch darpariaeth iechyd yng Nghanol De Cymru. Mae'r rhan fwyaf o'r sylwadau hyn yn cyfeirio at gyfuno ymddiriedolaethau yn yr ardal a datblygu cyfleusterau newydd yn yr ymddiriedolaeth newydd—Ymddiriedolaeth GIG Cwm Taf.

**Personal Safety**

**Q12 Joyce Watson:** Will the First Minister outline the Welsh Assembly Government's priorities for promoting personal safety? OAQ(3)1071(FM)

**The First Minister:** The Welsh Assembly Government, working with community safety partnerships, is committed to promoting personal safety through a joined-up, multi-agency approach to combating crime and disorder in Wales.

**Diogelwch Personol**

**C12 Joyce Watson:** A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu blaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer hyrwyddo diogelwch personol? OAQ(3)1071(FM)

**Y Prif Weinidog:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn gweithio gyda phartneriaethau diogelwch cymunedol, wedi ymrwmo i hyrwyddo diogelwch personol drwy ddull aml-asiantaeth a chydgyssylltiedig o frwydro yn erbyn troseddu ac anhrefn yng Nghymru.

**Dentistry**

**Q13 Michael German:** Will the First Minister make a statement on the Welsh Assembly Government's priorities for dentistry in Wales? OAQ(3)1089(FM)

**Deintyddiaeth**

**C13 Michael German:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am flaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer deintyddiaeth yng Nghymru? OAQ(3)1089(FM)

**The First Minister:** Our priorities are to continue to improve access, to strengthen community dental services, and develop a more public health focus for the delivery of services to help tackle oral health inequalities and, in doing so, meet our 'One Wales' commitment.

**Y Prif Weinidog:** Ein blaenoriaethau yw parhau i weithio er mwyn sicrhau bod mwy o bobl yn gallu manteisio ar wasanaethau, cryfhau'r gwasanaethau deintyddol cymunedol, a datblygu mwy o bwyslais ar iechyd cyhoeddus er mwyn helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau o ran iechyd y geg a, drwy hynny, gadw at ein hymrwymiad yn y ddogfen 'Cymru'n Un'.

#### **Common Agricultural Policy Reform**

#### **Diwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin**

**Q14 Lynne Neagle:** Will the First Minister make a statement on the Welsh Assembly Government's policy on CAP reform? OAQ(3)1075(FM)

**C14 Lynne Neagle:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bolisi Llywodraeth Cynulliad Cymru ar ddiwygio PAC? OAQ(3)1075(FM)

**The First Minister:** For the longer term, a CAP is needed that delivers sustainable food production and meets the challenges of climate change. Therefore, the direction for change signalled in the legislative proposals published by the European Commission on 20 May under the 2008 CAP health check process can be broadly welcomed.

**Y Prif Weinidog:** Yn y tymor hwy, mae angen PAC sy'n sicrhau cyflenwadau bwyd cynaliadwy ac sy'n wynebu her y newid yn yr hinsawdd. O'r herwydd, at ei gilydd, mae lle i groesawu'r cyfeiriad newydd sydd i'w ganfod yn y cynigion deddfwriaethol a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd ar 20 Mai dan broses prawf iechyd PAC 2008.

#### **Welsh Language Legislative Competence Order**

#### **Cymhwysedd Deddfwriaethol Arfaethedig ynghylch yr Iaith Gymraeg**

**Q15 Peter Black:** Will the First Minister make a statement on the proposed Welsh Language LCO? OAQ(3)1077(FM)

**C15 Peter Black:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol arfaethedig ynghylch yr Iaith Gymraeg? OAQ(3)1077(FM)

**The First Minister:** The One Wales Government is committed to a bilingual future for Wales. The upcoming Welsh language LCO is one of many measures being taken to ensure a prosperous future for a language that is central to the culture, economy and society of Wales.

**Y Prif Weinidog:** Mae Llywodraeth Cymru'n Un wedi ymrwymo i'r syniad o ddyfodol dwyieithog i Gymru. Mae'r Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol arfaethedig ynghylch yr iaith Gymraeg ymhlith llawer o fesurau sy'n cael eu cymryd i sicrhau dyfodol llewyrchus i iaith sy'n ganolog i ddiwylliant, economi a chymdeithas Cymru.